

Crynodeb

Y cyfle i feicio

Yr achos dros gyfle taleb beic i bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth





Crynodeb

Y cyfle i feicio

Yr achos dros gyfle taleb beic i bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth



Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Gwella mynediad at feiciau

Nod y prosiect Cyfle i Feicio oedd deall y galw, y costau a'r manteision sy'n perthyn i gyflwyno cynllun o gymorth ariannol i helpu pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth i gael mynediad at feic.

Fe wnaethom ddatblygu argymhellion yn yr adroddiad hwn gyda barn pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth ledled y Deyrnas Unedig, yn cynnwys 66 o gyfranogwyr grwpiau ffocws a 2,052 o bobl a roddodd eu barn i ni drwy arolwg cynrychioladol annibynnol.

Canfuom fod oddeutu 2 filiwn o bobl eisiau beicio ond mae pris cychwynnol prynu beic ac ategolion yn eu prisio allan.

Dengys ein hymchwil y byddai buddion sylweddol o ran iechyd cyhoeddus, llesiant a mynediad at addysg a chyflogaeth yn perthyn i gynllun taleb i helpu pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth brynu beic.

Drwy adeiladu ar gynlluniau blaenorol, fel y cynllun taleb Fix Your Bike a'r cynllun Cycle to Work, gallai'r polisi hwn fod yn un syml i'w roi ar waith a gallai ddwyn buddion uniongyrchol i iechyd ac i'r economi.

Ffotograffau: Rachel Sutherland/Sustrans (tudalen 1).

Mathias Reding/Unsplash (tudalen 12).

Sustrans

Rydym yn gweithio gyda chymunedau ac ar eu rhan, gan eu helpu i adfywio drwy gerdded, olwyno a seiclo i greu lleoedd iachach a bywydau hapusach i bawb.

www.sustrans.org.uk

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).

Yr abrdn Financial Fairness Trust

Ariannwyd y prosiect hwn gan yr abrdn Financial Fairness Trust, sefydliad elusennol annibynnol.

Mae'r abrdn Financial Fairness Trust yn ariannu ymchwil, gwaith polisi a gweithgareddau ymgyrchu i fynd i'r afael â phroblemau ariannol a gwella safonau byw i bobl ar incwm isel i ganolig yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ymddiriedolaeth elusennol annibynnol gofrestredig yn yr Alban (SC040877).

www.financialfairness.org.uk

Mae'r abrdn Financial Fairness Trust yn Elusen gofrestredig yn yr Alban SC040877.

Iaith

Rydym yn defnyddio'r term pobl ar incwm isel drwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at bobl a oedd naill ai mewn cyflogaeth ond yn ennill £17,000 y flwyddyn neu lai neu ddim mewn cyflogaeth, gan gynnwys myfyrwyr, pob wedi ymddeol, gofalwyr, a phobl yn chwilio am waith.

Wrth ddefnyddio 'beiciau', golygwn amrywiaeth eang o feiciau, beiciau tair olwyn, beiciau cargo a beiciau arbenigol, gan gynnwys beiciau sydd wedi'u haddasu'n arbennig a beiciau gorweddol. Gall y rhain oll fod wedi'u gyrru â phedalau neu â chymorth trydan (e-feiciau).

Crynodeb

Pam helpu pobl brynu beic?

Mae gan bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth lai o opsiynau trafndiaeth. Maent yn llai tebygol o fod yn berchen car, mae gwasanaethau bws wedi dirywio, ac mae prisiau trenau'n anfforddiadwy.

Mae yna wahaniaethau tebyg wrth drafod bod yn berchen beic. Dim ond 30% o bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth sydd â mynediad at feic. Ar wahân, canfu Mynegai Cerdded a Beicio Sustrans 2023 fod gan 59% o bobl yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol A a B¹ fynediad at feic.²

Gall 'tlodi trafndiaeth' leihau ansawdd bywyd pobl. Mae'n rhoi pobl mewn perygl o golli eu swydd, neu'n eu hatal rhag cael mynediad at addysg, hyfforddiant, swyddi sicr o ansawdd uchel ac amwynderau pwysig eraill.

Mae ein cenedl yn wynebu argyfwng iechyd cyhoeddus ac mae'r GIG yn cael trafferth ymdopi. Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth. Mae beicio'n gwella iechyd corfforol a meddyliol pobl trwy ymarfer corff a thrwy ei gwneud hi'n haws cael mynediad at fyd natur a threulio amser gyda ffrindiau a theulu.

Gall beic arwain at gyfleoedd lawer. Mae beiciau, e-feiciau a beiciau ansafonol yn ddull cost isel o deithio ar gyfer llawer o deithiau bob dydd, ac yn hollbwysig, mae'n helpu llawer o bobl gael mynediad at waith, sgiliau ac addysg.

Mae tri deg saith y cant o bobl ar incwm isel eisiau beicio mwy, yn ôl ein harolwg. Fodd bynnag, gall cost gychwynnol beic fod yn rhwystr i lawer. Dywedodd bron dau o bob pump (38%) o bobl fod beic yn anfforddiadwy.

¹ Grwpiau economaidd-gymdeithasol A a B yw'r rhai mewn galwedigaethau lefel rheoli, gweinyddol a phroffesiynol canol ac uwch.

² Sustrans. (2024). Mynegai Cerdded a Beicio, adroddiad y DU 2023. www.sustrans.org.uk/the-walking-and-cycling-index

Ers 1999 mae'r cynllun Beicio i'r Gwaith wedi helpu mwy na 2 filiwn o bobl i gael 30-42% oddi ar feic ac ategolion. Er gwaethaf y llwyddiant hwn, cynllun aberthu cyflog ydyw, ac mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ennill llai na £17,000 wedi'u hatal i bob pwrpas gan y byddai'n mynd â'u cyflogau yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Nid oes cynllun disgownt cenedlaethol cyfatebol ar gyfer pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.

Felly aeth Sustrans ati i:

- Deall beth sydd ei angen ar bobl ar incwm isel wrth gael mynediad at feic, a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag beicio.
- Modelu costau a buddion cynllun talebau beicio i unigolion a chymdeithas ar gyfer pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.

Mae 11.7 miliwn o bobl yn y DU yn ennill llai na £17,000 neu ddim mewn cyflogaeth, ac rydym yn amcangyfrif y byddai 1.9 miliwn yn hoffi prynu beic ond y mae cost yn eu hatal. Canfu ein hymchwil fod 55% o bobl ar incwm isel neu ddim mewn cyflogaeth yn meddwl y byddai cael mynediad at feic yn arbed arian iddynt, a theimlai 79% y gallai wella eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig gyflwyno taleb beic newydd

Rydym yn argymhell cyflwyno cynllun talebau sy'n cynnig gostyngiad o 40% ar bris manwerthu beiciau ac ategolion i bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth ledled y Deyrnas Unedig.

O gael ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig mae ein gwaith modelu yn awgrymu y byddai hyn, mewn un flwyddyn yn unig, yn:

- Cynhyrchu £60 miliwn mewn buddion i gymdeithas, yr economi ac unigolion, 3.3 gwaith yn fwy na'r gost o £18 miliwn am y gostyngiadau.
- Galluogi 100,000 o bobl i brynu beic, gan eu helpu i feicio mwy na dwy awr yr wythnos ar gyfartaledd.
- Helpu pobl i fyw bywydau iachach, hapusach, lleihau llygredd aer a helpu pobl i symud o le i le am gost isel.
- Cymryd miliynau o deithiau car oddi ar y ffyrdd.

Law yn llaw â'r adroddiad hwn, mae Sustrans wedi cyhoeddi offeryn Excel i helpu llunwyr polisi ddylunio cynllun talebau sy'n gweddu i'w hardal, eu hanghenion lleol a'u cyllideb, gan helpu i gyfrifo'r defnydd posibl, y costau a'r buddion. Mae ar gael yma www.sustrans.org.uk/the-cycling-opportunity.

Dengys ein hymchwil y byddai cynllun talebau'n boblogaidd ac yn gymharol syml i'w chyflwyno. Fel cymhariaeth, cyhoeddodd Fix Your Bike 400,000 o dalebau ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw beiciau yn Lloegr yn ystod y pandemig. Fe'i cyflwynwyd yn gyflym iawn gan y llywodraeth a llwyddodd i gael mwy o bobl i feicio.

Fel cam cyntaf, gallai'r cynllun talebau gael ei dreialu mewn hyd at bum awdurdod lleol neu gyfunol ledled y wlad cyn ei ehangu.

Argymhelliad 2: Wrth gyflwyno cynllun taleb beic newydd, dylai llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig sicrhau ei fod yn gwbl gynhwysol

Bydd angen dylunio'n ofalus gynlluniau sydd o fudd gwirioneddol i nifer fawr o bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth. Mae gan ddeugain y cant o bobl yn y grŵp hwn gyflwr iechyd neu anabledd hirdymor, gan olygu bod angen am feiciau arbenigol drytach. Ar ben hynny, nid yw llawer o bobl a oedd wedi'u prasio allan o feicio gynt yn teimlo'n hyderus ar y ffyrdd a bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i fynd yn ôl ar gefn beic. Rydym yn argymhell comisiynu'r gwaith hwn i sefydliad rhyngddibynnol sydd â hanes profedig o ddarparu cynlluniau manteision i bobl ar incwm isel.

- **Cam gweithredu 2.1:** Sicrhau nad yw cynlluniau yn gysylltiedig â chyflogaeth.
- **Cam gweithredu 2.2:** Sicrhau bod cynlluniau'n gwbl hygyrch, gyda chymorth ychwanegol i bobl anabl ac isafswm lefelau disgownt o 40-50% i wneud beiciau arbenigol yn fwy fforddiadwy.
- **Cam gweithredu 2.3:** Sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y cynllun drwy fannau cyswllt presennol, megis meddygon teulu, gwasanaethau cymorth cyflogaeth a phrifysgolion.
- **Cam gweithredu 2.4:** Gweithio gyda manwerthwyr i gynnig opsiynau ad-dalu i weddu i sefyllfaoedd ariannol gwahanol.
- **Cam gweithredu 2.5:** Cynnig opsiynau 'rhoi cynnig arni cyn prynu'.
- **Cam gweithredu 2.6:** Darparu pecyn cymorth i helpu pobl i ddod o hyd i'r beic cywir ar gyfer eu hanghenion a manteisio i'r eithaf arno.
- **Cam gweithredu 2.7:** Gweithio gyda manwerthwyr i gynnwys beiciau ail law yn y cynllun.

Argymhelliad 3: Dylai llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig barhau i fynd i'r afael â rhwystrau eraill i feicio

Mae llawer o faterion eraill y tu hwnt i gost beic sy'n atal pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth rhag beicio. Er mwyn helpu pawb i fwynhau manteision beicio, bydd angen mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag beicio neu'n eu digalonni rhag gwneud.

- **Cam gweithredu 3.1:** Darparu mannau parcio beiciau preswyl diogel a hygyrch.
- **Cam gweithredu 3.2:** Gwella seilwaith beicio yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gan gynnwys llwybrau di-draffig newydd, i roi hyder i bobl feicio.
- **Cam gweithredu 3.3:** Sicrhau bod pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth yn llywio polisïau ac arferion beicio.

Costau a buddion taleb gostyngiad o 40% ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan



Amcangyfrifir bod

11.7 miliwn o bobl

yn gymwys ledled y Deyrnas Unedig.


Disgwyliwn y bydd tua

100,000 o bobl

yn manteisio ar y cynllun bob blwyddyn.³



Bydd y polisi yn costio **£18 miliwn y flwyddyn mewn talebau**, heb gynnwys costau gweinyddol, marchnata a chymorth.



Mewn un flwyddyn, disgwyliwn **£60 miliwn mewn buddion i gymdeithas**.

Mae hyn yn cynnwys **£20 miliwn** o well iechyd, lleihau costau i'r GIG ac atal **13,000 o ddiwrnodau salwch**.



Mae mwy o feicio o'r cynllun yn debygol o osgoi dros **100 o achosion**

o glefydau difrifol, gan gynnwys diabetes, canserau, iselder, dementia, clefyd y galon a thorri asgwrn y glun,

Rhagwelir y bydd y gostyngiad yn y cyflyrau hyn yn unig yn arbed dros **£1 miliwn y flwyddyn i'r GIG**.⁴

Ym mlwyddyn un, y budd economaidd fyddai **£3.30 am bob £1** a roddir mewn gostyngiadau.



Dros gyfnod hwy, mae'r buddion yn debygol o fod yn llawer uwch, gan fod disgwyl i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr barhau i ddefnyddio'r beic am nifer o flynyddoedd.

³ Amcangyfrif wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio cyfranogiad cyfrannol yn y cynllun Cycle to Work.

⁴ Cyfrifwyd drwy gymhwyso offeryn amcangyfrif 'Outcomes and Values in the Economics of Sport and physical activity (MOVES)' Sport England.

Ar gyfartaledd, rydym yn rhagweld y byddai cyfranogwyr yn treulio ychydig llai na **dwy awr ychwanegol yr wythnos yn beicio.**



Byddai hyn yn helpu llawer i fodloni argymhelliad y GIG bod oedolion yn gwneud o leiaf **150 munud o weithgarwch corfforol cymedrol ddwys** yr wythnos

Byddai'r cynllun yn ychwanegu

£14–18 miliwn

at werth economaidd y diwydiant beicio, yn ôl amcangyfrifon gan y Bicycle Association.

Bydd hyn yn creu ac yn cynnal swyddi mewn manwerthwyr beiciau, gweithdai a gwasanaethau eraill. Bydd rhoi hwb i'r diwydiant beicio yn arbennig o bwysig ar adeg pan fydd gwerthiant yn gostwng yn galed.

Bob blwyddyn byddai'r cynllun yn arwain at

miliwn o deithiau beicio ychwanegol:

2.5 miliwn o deithiau i ac o'r gwaith

6 miliwn o deithiau i ac o'r gwaith yn y dyfodol

3.5 miliwn o deithiau i'r ysgol, coleg neu brifysgol ac yn ôl

9 miliwn o deithiau teithiau personol eraill

6.2 miliwn o deithiau er mwynhad neu ffitrwydd.

Mae hyn yn cynnwys

4 miliwn o deithiau car yn lle beicio

gan dorri allyriadau carbon a llygredd aer.



Rhagwelir y bydd gweithwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn arbed **£65** ar gyfartaledd ar eu cymudo bob blwyddyn, ar ôl y gwariant cychwynol ar y beic.



Oni nodir yn wahanol, daw'r ffigurau o waith modelu Sustrans ei hun.

